NDA Monthly Update

April 2016

Summary

- Start of new era at Sellafield
- NDA Strategy and Business Plan now published
- Major milestone at historic Sellafield fuel pond
- Mentoring scheme for small businesses
- Research projects on show
- Funding support for innovators
- 2016 Supply Chain Event date confirmed
- NDA's Insight magazine published
- Website now at new gov.uk home
- Last fuel leaves Oldbury

Diary Dates

• Annual conference of DISTINCTIVE PhD projects	19 April
• NDA Archive Open Day, Wick	July 2016
• More 4 TV programme featuring Drigg rail station	May
• Nuclear cyber security conference, Warrington	23-25 May
• IAEA conference on decommissioning, Madrid	23-27 May

Sellafield becomes NDA subsidiary

A new era in the history of Sellafield is under way after the SLC became a subsidiary of the NDA on 1 April. Direct ownership by the NDA will help Sellafield Ltd to accelerate progress and improve efficiency. The Parent Body Organisation model, where Sellafield Ltd was owned by private sector consortium Nuclear Management Partners (NMP) from 2008 until last month, has now been replaced by a simpler structure that is more suited to the complexities of the NDA's largest, most hazardous site. NDA Chief Executive John Clarke said: "The new arrangements will accommodate the challenges at the site more easily and allow for longer-term planning. The private sector will still be heavily involved in delivering work at Sellafield but no longer as an owner."

Weblink: New era for Sellafield

NDA publishes latest long-term Strategy

The NDA has now published two of the key documents that outline its forward plans for the years ahead. The Strategy, effective from 2016 onwards, is updated every five years and focuses on a long-term overview based on a series of themes; the Business Plan for 2016-2019, takes a more detailed look at site activities in the shorter term. Both documents take account of the funding settlement allocated to the NDA in the government's Spending Review last autumn. A period of pubic consultation took place during January and February, enabling the NDA to take account of feedback before the documents were finalised.

Weblink: Strategy and Business Plan

Major milestone at historic fuel pond

The "most significant stride ever" was achieved in the Sellafield clean-up mission when the entire bulk stocks of historic nuclear fuel were removed from one of the site's oldest ponds. The milestone came after decommissioning teams lifted the final skip of 'metal fuel' from the Pile Fuel Storage Pond via a remote-controlled process. Retrieval of the pond's 'canned fuel' inventory was successfully completed in October 2015. The work means radioactivity levels at the 68-year-old spent fuel pond have now been cut by 70 per cent, vastly reducing the risk it poses to people and environment. The achievement is the most visible sign yet of progress in the NDA's programme to clean-up the legacy of Britain's early nuclear industry, which is set to continue for at least another 100 years. The fuel has been transferred to a modern on-site storage building.

Weblink: Sellafield pond achievement

Mentoring scheme welcomes applications

A mentoring scheme for smaller businesses closes to applications this month. The voluntary scheme operates for two years, pairing Small and Medium-sized Enterprises

(SMEs) with larger organisations to share skills, experience and contacts with the aim of helping SMEs navigate through the maze of nuclear decommissioning opportunities. All UK-based SMEs are eligible to apply to become a mentee, regardless of industrial background, but must aspire to work in nuclear decommissioning or have an existing involvement. The scheme closes to applications on 15 April.

Weblink: SME mentoring scheme

Research projects on show

More than 40 nuclear research projects were on show at a recent event in Manchester, demonstrating the progress achieved in the years since funding totalling £50 million was awarded to them. Since 2012, the joint initiative by the NDA, Innovate UK, Department of Energy and Climate Change (DECC) and Engineering and Physical Sciences Research Council (EPSRC) has invested in a range of innovative projects aiming to encourage all sectors of the UK's nuclear supply chain. The Collaboration Nation event, which brought together research organisations with potential customers, featured a series of presentations, awards and networking.

Weblink: Collaboration Nation

£500,000 for innovative smaller businesses

The NDA is contributing £500,000 to a £1.5 million initiative to encourage smaller businesses to find new ways of solving some of the energy industry's technical challenges. The contribution takes Innovate UK's Energy Game Changer fund, announced last year, to £2 million. The funding support aims to attract innovative Small and Medium-sized Enterprises (SMEs) into all energy sectors, including oil, gas and nuclear. The NDA is particularly interested in technologies that could be applied to decommissioning challenges. Allocation of funding will take place through a competitive process that opened on 28 March.

Weblink: Game Changer initiative

New chair for Sellafield Ltd board

The NDA has announced that Tony Fountain will become the new chair for Sellafield Ltd, taking up the role on 1 April 2016 as part of new management arrangements which will see Sellafield Ltd become a wholly owned NDA subsidiary. He will replace current chair Tony Price. Tony Fountain brings valuable knowledge of the nuclear industry having been Chief Executive of the NDA from 2009 to 2011.

Weblink: NDA announces new chair for Sellafield Ltd

Date confirmed for 2016 Supply Chain Event

The date of the next annual networking event for NDA suppliers has now been confirmed as **Thursday, 3rd November.** For 2016, the NDA Estate Supply Chain Event again returns to EventCity in Manchester, providing opportunities for businesses of all sizes to exhibit in the main hall and to meet leading figures in nuclear decommissioning. The one-day event is free of charge for visitors and exhibitors (optional extras are subject to a small fee). Launched in 2011, its aim is to continue improving the visibility of opportunities for suppliers, particularly those in the Small and Medium-sized Enterprise (SME) community. Further details will be published shortly.

Insight magazine published

The Spring edition of the NDA's news magazine Insight has been published and is available on the website.

Weblink: Insight published

New home for NDA website

The NDA's website content has now been moved to the central government website and the old website has been switched off. Web users should be automatically redirected to the new content. Meanwhile, the new website also includes a recently launched NDA blog post, with contributions from guest authors on a range of topics.

Weblink: NDA website and NDA blog home page

How the UK is providing support in Japan

When the fifth anniversary of the Japanese tsunami was marked last month, the NDA's Head of International Relations, John Mathieson, looked at international support for clean-up work at the Fukushima Dai-ichi nuclear plant and the contribution made by a range of UK businesses.

Weblink: Helping businesses access the Japanese market

Last fuel leaves Oldbury

The last flask of fuel has been dispatched from Oldbury for reprocessing at Sellafield, completing a defuelling programme that began when the power station closed in 2012. Transfer of the last fuel also removes 99 per cent of the radioactive hazard from the site and enables Oldbury to move into its decommissioning phase. The aim is to reach the passive Care and Maintenance by 2027.

Weblink: Oldbury dispatches last flask

Diweddariad Misol yr NDA

Ebrill 2016

Crynodeb

- Dechrau cyfnod newydd yn Sellafield
- Cyhoeddi Strategaeth a Chynllun Busnes yr NDA
- Carreg filltir bwysig ar gyfer pwll tanwydd hanesyddol Sellafield
- Cynllun mentora i fusnesau bach
- Arddangos prosiectau ymchwil
- Cymorth ariannol i arloeswyr
- Cadarnhau dyddiad Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi 2016
- Cyhoeddi cylchgrawn Insight yr NDA
- Y wefan wedi symud i hafan gov.uk
- Y tanwydd olaf yn gadael Oldbury

Ar gyfer eich Dyddiadur

• Cynhadledd flynyddol prosiectau PhD DISTINCTIVE	19 Ebrill
• Diwrnodau Agored Archif yr NDA, Wick	Gorffennaf 2016
• Rhaglen deledu More 4 yn rhoi sylw i orsaf reilffordd Drigg	Mai
• Cynhadledd seiberddiogelwch niwclear, Warrington	23-25 Mai
• Cynhadledd IAEA ar ddatgomisiynu, Madrid	23-27 Mai

Diweddariad Misol yr NDA – Ebrill 2016

Sellafield yn dod yn is-gwmni i'r NDA

Dechreuodd cyfnod newydd yn hanes Sellafield wedi i'r SLC ddod yn is-gwmni i'r NDA ar 1 Ebrill. Bydd perchenogaeth uniongyrchol yr NDA yn helpu Sellafield Cyf i wneud cynnydd yn gyflymach a gwella effeithlonrwydd. Mae model Sefydliad y Rhiant-Gorff, lle'r oedd Sellafield Cyf yn eiddo i'r consortiwm sector preifat Nuclear Management Partners (NMP) rhwng 2008 a'r mis diwethaf, wedi'i ddisodli bellach gan strwythur symlach sy'n fwy addas i natur gymhleth y safle helaethaf a mwyaf peryglus sydd gan yr NDA. Meddai Prif Weithredwr yr NDA John Clarke: "Bydd y trefniadau newydd yn ateb yr heriau ar y safle'n haws ac yn caniatáu cynllunio tymor hwy. Bydd y sector preifat yn chwarae rhan bwysig o hyd mewn gwaith yn Sellafield ond nid bellach fel perchennog."

Dolen we: Cyfnod newydd yn Sellafield

Yr NDA yn cyhoeddi ei Strategaeth hirdymor ddiweddaraf

Mae'r NDA bellach wedi cyhoeddi dwy o'r dogfennau allweddol sy'n amlinellu ei flaengynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Bydd y Strategaeth, a fydd yn weithredol o 2016 ymlaen, yn cael ei diweddaru bob pum mlynedd ac mae'n canolbwyntio ar drosolwg hirdymor wedi'i seilio ar nifer o themâu; mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-2019 yn ymdrin yn fwy manwl â gweithgareddau ar safleoedd yn y tymor byrrach. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u llunio yng nghyd-destun y setliad ariannol a ddyrannwyd i'r NDA yn Adolygiad o Wariant y llywodraeth yr hydref diwethaf. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd yn ystod Ionawr a Chwefror, er mwyn i'r NDA allu ystyried adborth cyn cwblhau'r dogfennau.

Dolen we: Strategaeth a Chynllun Busnes

Carreg filltir bwysig ar gyfer pwll tanwydd hanesyddol

Cymerwyd "y cam pwysicaf erioed" yn y gwaith o lanhau Sellafield pan symudwyd y cwbl o'r stociau mawr o danwydd niwclear hanesyddol o un o byllau hynaf y safle. Cyrhaeddwyd y garreg filltir ar ôl i'r timau datgomisiynu godi'r sgip olaf o 'danwydd metel' o Bwll Storio Tanwydd Adweithyddion drwy broses rheoli o bell. Codwyd yr olaf o'r "caniau" tanwydd yn Hydref 2015. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae lefelau ymbelydredd yn y pwll gweddillion tanwydd a agorwyd 68 mlynedd yn ôl yn 70 y cant yn is, fel bod y risg sy'n codi ohono i bobl a'r amgylchedd yn llai o lawer. Y llwyddiant hwn oedd yr arwydd mwyaf gweladwy eto o'r cynnydd ar raglen yr NDA ar gyfer glanhau olion y diwydiant niwclear cynnar ym Mhrydain, a fydd yn parhau am 100 mlynedd arall o leiaf. Mae'r tanwydd wedi'i drosglwyddo i adeilad storio modern ar y safle.

Dolen we: Cyrraedd y nod ym mhwll tanwydd Sellafield

Cynllun mentora yn croesawu ceisiadau

Mae'r dyddiad cau wedi cyrraedd y mis hwn ar gyfer ceisiadau i gynllun mentora i fusnesau llai. Mae'r cynllun gwirfoddol yn rhedeg am ddwy flynedd, yn cysylltu Busnesau Bach a Chanolig â sefydliadau mwy er mwyn rhannu sgiliau, profiad a

chysylltiadau gyda'r bwriad o helpu Busnesau Bach a Chanolig i elwa o'r nifer mawr o gyfleoedd sy'n codi drwy'r broses datgomisiynu niwclear. Mae pob Busnes Bach a Chanolig sydd â'i bencadlys yn y DU yn gymwys i wneud cais am fentor, beth bynnag fo'i gefndir diwydiannol, ond mae'n ofynnol ei fod yn cymryd rhan yn y maes datgomisiynu niwclear neu ei fod ag uchelgais i wneud hynny. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r cynllun yw 15 Ebrill.

Dolen we: Cynllun mentora busnesau bach a chanolig

Arddangos prosiectau ymchwil

Roedd mwy na 40 o brosiectau ymchwil niwclear yn cael eu harddangos mewn digwyddiad a gynhaliwyd ym Manceinion yn ddiweddar i roi cyfle i weld y cynnydd a gafwyd yn y blynyddoedd ers dyfarnu cyfanswm o £50 miliwn o gyllid iddynt. Er 2012, mae'r fenter ar y cyd rhwng yr NDA, Innovate UK, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a Chyngor Ymchwil Peiranneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau arloesol er mwyn hybu'r holl sectorau yng nghadwyn gyflenwi niwclear y DU. Roedd y digwyddiad Collaboration Nation, a ddaeth â sefydliadau ymchwil a chwsmeriaid posibl at ei gilydd, yn cynnwys nifer o gyflwyniadau a chyfarfodydd gwobrwyo a rhwydweithio.

Dolen we: Collaboration Nation

£500,000 i fusnesau bach arloesol

Mae'r NDA yn cyfrannu £500,000 i fenter werth £1.5 miliwn i gymell busnesau llai i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddatrys rhai o'r heriau technegol sy'n wynebu'r diwydiant ynni. O ganlyniad i hyn, mae'r gronfa Energy Game Changer a lansiwyd y llynedd gan Innovate UK wedi cyrraedd £2 filiwn. Y nod wrth gynnig cymorth ariannol yw denu Busnesau Bach a Chanolig arloesol i bob un o'r sectorau ynni, gan gynnwys olew, nwy a niwclear. Mae gan yr NDA ddiddordeb mawr mewn technolegau a allai ateb heriau yn y broses datgomisiynu. Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu drwy broses gystadleuol a ddechreuodd ar 28 Mawrth.

Dolen we: Menter Game Changer

Cadeirydd newydd i fwrdd Sellafield Cyf

Mae'r NDA wedi cyhoeddi mai Tony Fountain fydd cadeirydd newydd Sellafield Cyf. Bydd yn dechrau ar ei waith ar 1 Ebrill 2016 o dan drefniadau rheoli newydd lle bydd Sellafield Cyf yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r NDA. Bydd yn cymryd lle'r cadeirydd presennol Tony Price. Mae gan Tony Fountain wybodaeth werthfawr am y diwydiant niwclear gan mai ef oedd Prif Weithredwr yr NDA rhwng 2009 a 2011.

Dolen we: NDA yn cyhoeddi enw cadeirydd newydd Sellafield Cyf

Cadarnhau'r dyddiad ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi 2016

Cadarnhawyd mai dyddiad y digwyddiad rhwydweithio blynyddol nesaf i gyflenwyr yr NDA yw **dydd Iau, 3 Tachwedd.** Ar gyfer 2016, bydd Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystad yr NDA yn dychwelyd i EventCity ym Manceinion, felly bydd busnesau o bob

maint yn cael cyfle i arddangos yn y brif neuadd a chwrdd â phobl flaenllaw ym maes datgomisiynu niwclear. Mae'r digwyddiad undydd hwn yn rhad ac am ddim i ymwelwyr ac arddangoswyr (codir ffi fach am opsiynau ychwanegol). Lansiwyd y digwyddiad yn 2011 a'i nod yw parhau i wella'r cyfleoedd i arddangos i gyflenwyr, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig. Cyhoeddir rhagor o fanylion cyn hir.

Cyhoeddi cylchgrawn Insight

Cyhoeddwyd rhifyn y gwanwyn o gylchgrawn newydd yr NDA Insight ac mae ar gael ar y wefan.

Dolen we: Cyhoeddi Insight

Cartref newydd i wefan yr NDA

Mae'r cynnwys ar wefan yr NDA wedi cael ei symud i wefan y llywodraeth ganolog ac mae'r hen wefan wedi'i chau. Bydd defnyddwyr y we yn cael eu hailgyfeirio'n awtomatig at y cynnwys newydd. Mae'r wefan newydd hefyd yn cynnwys blog yr NDA a lansiwyd yn ddiweddar, lle mae cyfraniadau gan awduron gwadd ar amrywiaeth o bynciau.

Dolen we: Gwefan yr NDA a Hafan blog yr NDA

Sut mae'r DU yn darparu cymorth yn Japan

Y mis diwethaf, wrth nodi pum mlynedd ers trychineb y tswnami yn Japan, mae Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol yr NDA John Mathieson wedi bod yn trafod y cymorth rhyngwladol ar gyfer y gwaith glanhau ar safle niwclear Fukushima Dai-ichi a'r cyfraniad a gafwyd gan nifer o fusnesau o'r DU.

Dolen we: Helpu busnesau i gael mynediad i farchnad Japan

Y tanwydd olaf yn gadael Oldbury

Mae'r fflasg olaf o danwydd wedi'i hanfon o Oldbury i'w hailbrosesu yn Sellafield, ar ddiwedd y rhaglen tynnu tanwydd a ddechreuwyd pan gaeodd yr orsaf bŵer yn 2012. Wrth drosglwyddo'r olaf o'r tanwydd, mae 99 y cant o'r perygl ymbelydrol wedi'i symud o'r safle fel y gellir symud ymlaen i'r cyfnod datgomisiynu yn Oldbury. Y nod yw cyrraedd y cam Gofal a Chynnal Goddefol erbyn 2027.

Dolen we: Oldbury yn trosglwyddo'r fflasg olaf

NDA Monthly Update

May 2016

Summary

- National college for nuclear announced
- NDA's £12 million for research consortia
- Major milestone at historic Sellafield storage silos
- Start of new era at Sellafield
- Major milestone at historic Sellafield fuel pond
- Performance overview published
- NDA Strategy and Business Plan now published
- Research projects on show
- 2016 Supply Chain Event date confirmed
- NDA's Insight magazine available
- Website now at new gov.uk home
- UK support for Japan clean-up

Diary Dates

• Nuclear cyber security conference, Warrington	23-25 May
• IAEA conference on decommissioning, Madrid	23-27 May
• Scottish supply chain event, Dunblane	22 June
• LLWR Annual Customer Forum, Workington	29 June
• Publication of NDA Annual Report & Accounts	June/July
• NDA Archive Open Day, Wick	July 2016

Nuclear Decommissioning Authority

National college for nuclear announced

Cumbria and Somerset are set to play a leading role in the government's £15 million investment to create a world-class nuclear training college for the UK. The Department for Business, Innovation and Skills (BIS) confirmed that the National College for Nuclear (NCfN) will based on two sites at Lakes College, Lilyhall, and Bridgwater College. The college, set to open in September 2017, aims to train 7,000 people by 2020 and is one of five national colleges aimed creating the 'workforce of tomorrow'. Sellafield Ltd and EDF will lead industry input into the nuclear college, working alongside the Universities of Cumbria and Bristol. Current forecasts predict demand for skilled staff at all levels in nuclear will increase by 40 per cent to 98,000 workers. The other national colleges will focus on advanced manufacturing, digital skills, wind energy, high-speed rail, creative and cultural industries and onshore oil and gas.

Weblink: National College for Nuclear

£12 million for research

R&D framework contracts worth up to £12 million were awarded to a series of consortia, as NDA seeks innovative solutions to technical challenges. Among the organisations involved are UK universities, global corporations and around 20 Small and Medium-sized Enterprises (SMEs). The NDA's Direct Research Portfolio (DRP) forms a key part of the NDA's strategic research programme and focuses on direct funding for research that delivers innovation across multiple sites, develops technical expertise and informs NDA's strategy. The three new framework contracts were awarded to 10 consortia, involving more than 70 organisations and including three consortia led by SMEs. The contracts, last awarded in 2012, will cover the next four years.

Meanwhile, almost 50 research students and Post-Doctoral Research Assistants, who are working on a unique programme, gathered in Bristol to share their progress with representatives from industry, regulators and international organisations. The students were part of the four-year DISTINCTIVE programme (Decommissioning, Immobilisation and Storage Solutions for Nuclear Waste Inventories), launched in 2014. DISTINCTIVE is supported by 11 universities, led by Leeds, and funded jointly by the Engineering & Physical Sciences Research Council, NDA, the National Nuclear Laboratory (NNL), NDA and Sellafield Ltd.

Weblink: Research contracts

Find out more about the DISTINCTIVE consortium

Opening doors to Sellafield hazard removal

One of Sellafield's most hazardous buildings is a step closer to being cleaned up after a major engineering task was completed. The historic Pile Fuel Cladding Silo contains waste from the site's earliest days, when the site was focused on weapons-related

activities, and is one of the most challenging tasks in the NDA estate. Installation of a huge 40-tonne, 9-metre wide steel door frame on the side of the building marks a crucial step. This will allow doors to be hung, behind which holes will be cut so the waste can be removed by retrieval machines. Years of planning, testing and specialist engineering design preceded the milestone achievement.

Weblink: Sellafield engineering feat

Major milestone at historic Sellafield pond

The most significant stride ever was achieved in the Sellafield clean-up mission when the entire bulk stocks of historic nuclear fuel were removed from one of the site's oldest ponds. The milestone came after decommissioning teams lifted the final skip of 'metal fuel' from the Pile Fuel Storage Pond via a remote-controlled process. Retrieval of the pond's 'canned fuel' inventory was successfully completed in October 2015. The work means radioactivity levels at the 68-year-old spent fuel pond have now been cut by 70 per cent, vastly reducing the risk it poses to people and environment. The achievement is the most visible sign yet of progress in the NDA's programme to clean-up the legacy of Britain's early nuclear industry, which is set to continue for at least another 100 years. The fuel has been transferred to a modern on-site storage building.

Weblink: Sellafield pond achievement

Sellafield becomes NDA subsidiary

A new era in the history of Sellafield is under way after the SLC became a subsidiary of the NDA in April. Direct ownership by the NDA will help Sellafield Ltd to accelerate progress and improve efficiency. The Parent Body Organisation model, where Sellafield Ltd was owned by private sector consortium Nuclear Management Partners (NMP) from 2008 until March, has now been replaced by a simpler structure that is more suited to the complexities of the NDA's largest, most hazardous site. NDA Chief Executive John Clarke said: "The new arrangements will accommodate the challenges at the site more easily and allow for longer-term planning. The private sector will still be heavily involved in delivering work at Sellafield but no longer as an owner."

Weblink: New era for Sellafield

Performance overview published

The NDA has published the latest quarterly overview of performance across its sites, focusing on the priority programmes and major projects. Progress is measured against specific targets set out in the annual Business Plan.

Weblink: Performance review

NDA publishes latest long-term Strategy

The NDA has now published two of the key documents that outline its forward plans for the years ahead. The Strategy, effective from 2016 onwards, is updated every five years and focuses on a long-term overview based on a series of themes; the Business Plan for 2016-2016, takes a more detailed look at site activities in the shorter term. Both documents take account of the funding settlement allocated to the NDA in the government's Spending Review last autumn. A period of pubic consultation took place during January and February, enabling the NDA to take account of feedback before the documents were finalised.

Weblink: Strategy and Business Plan

Research projects on show

More than 40 nuclear research projects were on show at a recent event in Manchester, demonstrating the progress achieved in the years since funding totalling £50 million was awarded to them. Since 2012, the joint initiative by the NDA, Innovate UK, Department of Energy and Climate Change (DECC) and Engineering and Physical Sciences Research Council (EPSRC) has invested in a range of innovative projects aiming to encourage all sectors of the UK's nuclear supply chain. The Collaboration Nation event, which brought together research organisations with potential customers, featured a series of presentations, awards and networking.

Weblink: Collaboration Nation

Date confirmed for 2016 Supply Chain Event

The date of the next annual networking event for NDA suppliers has now been confirmed as **Thursday, 3rd November.** For 2016, the NDA Estate Supply Chain Event again returns to EventCity in Manchester, providing opportunities for businesses of all sizes to exhibit in the main hall and to meet leading figures in nuclear decommissioning. The one-day event is free of charge for visitors and exhibitors (optional extras are subject to a small fee). Launched in 2011, its aim is to continue improving the visibility of opportunities for suppliers, particularly those in the Small and Medium-sized Enterprise (SME) community. Further details will be published shortly.

New home for NDA website

The NDA's website content has now been moved to the central government website and the old website has been switched off. Web users should be automatically redirected to the new content. Meanwhile, the new website also includes a recently launched NDA blog post, with contributions from guest authors on a range of topics.

Weblink: NDA website and NDA blog home page

Diweddariad Misol yr ADN

Mai 2016

Crynodeb

- Cyhoeddi manylion coleg niwclear cenedlaethol
- £12 miliwn yr ADN ar gyfer consortia ymchwil
- Carreg filltir bwysig i seilos storio hanesyddol Sellafield
- Cychwyn cyfnod newydd yn Sellafield
- Carreg filltir bwysig ym mhwll tanwydd Sellafield
- Cyhoeddi trosolwg perfformiad
- Cyhoeddi Strategaeth a Chynllun Busnes yr ADN
- Prosiectau ymchwil yn cael eu harddangos
- Cadarnhau dyddiad Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi 2016
- Cylchgrawn Insight yr ADN ar gael
- Y wefan yn awr yng nghartref newydd gov.uk
- Cymorth y DU i'r gwaith glanhau yn Japan

Dyddiadau i'r Dyddiadur

• Cynhadledd diogelwch seibr niwclear, Warrington	23-25 Mai
• Cynhadledd yr IAEA ar ddatgomisiynu, Madrid	23-27 Mai
• Digwyddiad cadwyn gyflenwi'r Alban, Dunblane	22 Mehefin
• Fforwm Blynyddol Cwsmeriaid LLWR, Workington	29 Mehefin
• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ADN	Mehefin / Gorffennaf
• Diwrnod Agored Archif yr ADN, Wick	Gorffennaf 2016

Cyhoeddi manylion coleg niwclear cenedlaethol

Bydd Cumbria a Gwlad yr Haf yn chwarae rôl flaenllaw ym muddsoddiad £15 miliwn y Llywodraeth i greu coleg hyfforddiant niwclear o safon ryngwladol ar gyfer y DU. Cadarnhaodd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) y bydd y Coleg Niwclear Cenedlaethol (NCfN) yn cael ei leoli ar ddau safle yn Lakes College, Lilyhall, a Bridgwater College. Nod y coleg, a fydd yn agor ym mis Medi 2017, yw hyfforddi 7,000 o bobl erbyn 2020 ac mae'n un o bum coleg cenedlaethol sydd â'r nod o greu 'gweithlu yfory'. Bydd Sellafield Ltd ac EDF yn arwain cyfraniad y diwydiant at y coleg niwclear, gan weithio ochr yn ochr â Phrifysgolion Cumbria a Bryste. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn rhagweld y bydd y galw am staff medrus ar bob lefel yn y diwydiant niwclear yn cynyddu 40 y cant i 98,000 o weithwyr. Bydd y colegau cenedlaethol eraill yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, sgiliau digidol, ynni gwynt, rheilffyrdd cyflym, diwydiannau creadigol a diwylliannol ac olew a nwy ar y tir.

Dolen: National College for Nuclear

£12 miliwn ar gyfer ymchwil

Cafodd contractau fframwaith ymchwil a datblygu gwerth hyd at £12 miliwn eu dyfarnu i gyfres o gonsortia, wrth i'r ADN chwilio am atebion arloesol i heriau technegol. Ymhlith y sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r cynllun mae prifysgolion y DU, corfforaethau byd-eang a tua 20 o fusnesau bach a chanolig (BBChau). Mae Portffolio Ymchwil Uniongyrchol (DRP) yr ADN yn rhan allweddol o raglen ymchwil strategol yr ADN ac mae'n rhoi pwyslais ar gyllid uniongyrchol i ymchwil sy'n arwain at arloesi ar draws nifer o safleoedd, yn datblygu arbenigedd technegol ac sy'n sail i strategaeth yr ADN. Cafodd y tri chontract fframwaith eu dyfarnu i 10 consortiwm, sy'n cynnwys dros 70 o sefydliadau gan gynnwys tri chonsortiwm sy'n cael eu harwain gan BBChau. Bydd y contractau, a ddyfarnwyd ddiwethaf yn 2012, yn ymestyn am y pedair blynedd nesaf,

Yn y cyfamser, daeth bron i 50 o fyfyrwyr ymchwil a Chynorthwywyr Ymchwil Ôl-Ddoethurol, sy'n gweithio ar raglen unigryw, at ei gilydd ym Mryste i rannu eu cynnydd â chynrychiolwyr o fyd diwydiant, rheolyddion a sefydliadau rhyngwladol. Roedd y myfyrwyr yn rhan o'r rhaglen pedair blynedd DISTINCTIVE (Decommissioning, Immobilisation and Storage Solutions for Nuclear Waste Inventories), a lansiwyd yn 2014. Mae DISTINCTIVE yn cael ei gefnogi gan 11 o brifysgolion, o dan arweiniad Leeds, ac mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, yr ADN, y Labordy Niwclear Cenedlaethol (NNL), a Sellafield Ltd.

Dolen: Contractau ymchwil

Darllenwch ragor am gonsortiwm DISTINCTIVE

Diweddariad Misol yr ADN – Mai 2016

Agor drysau i waredu peryglon Sellafield

Mae un o adeiladau mwyaf peryglus Sellafield gam yn nes at gael ei lanhau ar ôl i dasg beirianyddol bwysig gael ei chwblhau. Mae'r Seilo Cladin Tanwydd yn cynnwys gwastraff o ddyddiau cynharaf y safle, pan oedd y safle'n canolbwyntio ar weithgareddau'n ymwneud ag arfau, ac mae un o'r tasgau mwyaf heriol ar ystâd yr ADN. Mae gosod ffrâm drws dur 40 tunnell a naw metr o led ar ochr yr adeilad yn garreg filltir bwysig dros ben. Bydd hyn yn galluogi drysau i gael eu gosod, a bydd tyllau'n cael eu tyllu y tu ôl iddo fel y bydd modd i beiriannau gael y gwastraff allan. Roedd blynyddoedd o ymchwil, profion a dyluniad peirianneg arbenigol wedi digwydd cyn y cam pwysig hwn.

Dolen: Camp beirianyddol Sellafield

Carreg filltir bwysig ym mhwll hanesyddol Sellafield

Cafodd y garreg filltir bwysicaf erioed ei chyflawni yn y gwaith o lanhau Sellafield yn sgil gwaredu'r holl swmp o danwydd niwclear hanesyddol o un o byllau hynaf y safle. Daeth y garreg filltir ar ôl i dimau datgomisiynu godi'r sgip olaf o 'danwydd metel' o'r Pwll Storio Tanwydd trwy broses a oedd yn cael ei rheoli o bell. Adenillwyd stocrestr 'tanwydd wedi'i ganio' y pwll yn llwyddiannus ym mis Hydref 2015. Mae'r gwaith yn golygu bod lefelau ymbelydredd y pwll tanwydd 68 oed yn awr 70 y cant yn is, sy'n lleihau'n sylweddol y perygl i bobl a'r amgylchedd. Y gwaith hwn yw'r arwydd mwyaf gweledol hyd yma o'r cynnydd yn rhaglen yr ADN i lanhau etifeddiaeth diwydiant niwclear cynnar y DU, sy'n debygol o barhau am o leiaf 100 mlynedd arall. Mae'r tanwydd wedi cael ei drosglwyddo i adeilad storio modern ar y safle.

Dolen: Cyflawniad pwll Sellafield

Sellafield yn dod yn is-gwmni i'r ADN

Mae cyfnod newydd yn hanes Sellafield ar gychwyn wrth i'r SLC ddod yn is-gwmni i'r ADN ym mis Ebrill. Bydd perchnogaeth uniongyrchol yr ADN yn helpu Sellafield Ltd i gyflymu cynnydd ac i wella effeithlonrwydd. Mae'r model Rhiant Sefydliad, lle'r oedd Sellafield Ltd yn eiddo i gonsortiwm o'r sector preifat Nuclear Management Partners (NMP) o 2008 tan fis Mawrth, bellach wedi cael ei ddisodli gan strwythur symlach sy'n fwy addas ar gyfer cymhlethdodau safle mwyaf, a mwyaf peryglus yr ADN. Meddai Prif Weithredwr yr ADN John Clarke: "Bydd y trefniadau newydd yn ein helpu i oresgyn heriau'r safle'n haws a byddant yn galluogi cynllunio mwy tymor hir. Bydd y sector preifat yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r gwaith yn Sellafield ond nid fel perchennog o hyn ymlaen."

Dolen: Cyfnod newydd i Sellafield

Diweddariad Misol yr ADN – Mai 2016

Cyhoeddi trosolwg perfformiad

Mae'r ADN wedi cyhoeddi'r trosolwg perfformiad chwarterol diweddaraf ar gyfer ei safleoedd, gyda phwyslais ar y rhaglenni blaenoriaeth a'r prif brosiectau. Mae cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn targedau penodol a amlinellir yn y Cynllun Busnes blynyddol.

Dolen: Adolygiad perfformiad

Yr ADN yn cyhoeddi ei Strategaeth tymor hir ddiweddaraf

Mae'r ADN wedi cyhoeddi dwy ddogfen allweddol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae'r Strategaeth, a fydd yn weithredol o 2016 ymlaen, yn cael ei diweddaru bob pum mlynedd ac mae'n canolbwyntio ar drosolwg tymor hir yn seiliedig ar gyfres o themâu; mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-2016 yn bwrw golwg fwy manwl ar weithgareddau'r safle yn y tymor byr. Mae'r ddwy ddogfen yn rhoi sylw i'r setliad cyllido a ddyrannwyd i'r ADN yn Adolygiad o Wariant y Llywodraeth yr hydref diwethaf. Cafwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Ionawr a Chwefror, a oedd yn galluogi'r ADN i roi sylw i'r adborth a gafwyd cyn cyhoeddi'r dogfennau terfynol.

Dolen: Strategaeth a Chynllun Busnes

Prosiectau ymchwil yn cael eu harddangos

Roedd dros 40 o brosiectau ymchwil niwclear yn cael eu harddangos mewn digwyddiad diweddar ym Manceinion, i ddangos y cynnydd a wnaethpwyd yn y blynyddoedd ers i gyllid gwerth £50 miliwn gael ei ddyfarnu iddynt. Er 2012, mae'r cynllun ar y cyd rhwng yr ADN, Innovate UK, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a'r Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau arloesol i annog pob sector yng nghadwyn gyflenwi niwclear y DU. Roedd y digwyddiad Collaboration Nation, a oedd yn dwyn ynghyd sefydliadau ymchwil a darpar gwsmeriaid, yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau, gwobrau a chyfleoedd i rwydweithio.

Dolen: Collaboration Nation

Cadarnhau dyddiad Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi 2016

Mae dyddiad y digwyddiad rhwydweithio blynyddol nesaf ar gyfer cyflenwyr yr ADN wedi cael ei gadarnhau fel **dydd Iau, 3 Tachwedd.** Ar gyfer 2016, bydd Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr ADN yn dychwelyd i EventCity ym Manceinion, gan gynnig cyfleoedd i fusnesau o bob maint i arddangos yn y brif neuadd ac i gwrdd â ffigurau blaenllaw mewn datgomisiynu niwclear. Mae'r digwyddiad undydd yn ddi-dâl i ymwelwyr ac arddangoswyr (mae opsiynau ychwanegol ar gael am dâl bychan). Ers ei lansio yn 2011, ei nod yw parhau i dynnu sylw at gyfleoedd i gyflenwyr, yn enwedig rhai yn y sector Busnesau Bach a Chanolig. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi cyn hir.

Cartref newydd gwefan yr ADN

Mae cynnwys gwefan yr ADN wedi cael ei symud i wefan y llywodraeth ganolog ac mae'r hen wefan wedi cael ei dileu. Dylai defnyddwyr gael eu hatgyfeirio'n awtomatig i'r cynnwys newydd. Yn y cyfamser, mae'r wefan newydd hefyd yn cynnwys blog yr ADN a lansiwyd yn ddiweddar, gyda chyfraniadau gan awduron gwadd ar bob math o bynciau.

Dolen: Gwefan yr ADN a Thudalen gartref blog yr ADN